

Gorffennaf 2022

# Ansawdd dŵr afonydd

Ymchwil cwsmeriaid

ofwat

# Rhagair

Mae strategaeth Ofwat, [Amser i Weithredu, gyda'n gilydd](#), yn ymrwymo Ofwat i wrando ar gwsmeriaid yn fwy uniongyrchol i ddeall anghenion a blaenoriaethau pobl ac i wella'r corff o dystiolaeth ynglŷn â barn a phrofiadau pobl. Rydym yn defnyddio mewnwelediadau i brofi well ein polisïau ac arwain lle a sut rydym yn dal cwmnïau i gyfrif.

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar farn pobl ynglŷn ag ansawdd dŵr afonydd. Daeth data diweddar â mwy o ffocws i'r mater hwn drwy ddangos i ba raddau y mae cwmnïau dŵr gwastraff wedi bod yn defnyddio gorlif stormydd i ryddhau carthion i afonydd a moroedd.

Yn gynharach eleni ysgrifennodd Ofwat at gwmnïau dŵr gwastraff i sôn am eu cyfrifoldeb i leihau'r niwed i ansawdd dŵr afonydd o'u gweithgareddau ac i gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer hyn – i'w cwsmeriaid a'r cyhoedd yn ehangach eu gweld. Fel cefndir i hyn, roedd pryderon y cyhoedd yn cael eu codi ynglŷn â llygredd mewn afonydd, gyda galwadau am newid.

*Roedd yr ymchwil hwn yn gyfle i glywed yn fanylach gan gwsmeriaid ledled Cymru a Lloegr. Mae'r canfyddiadau'n dangos disgwyliadau pobl o ran ansawdd dŵr afonydd, tra hefyd yn amlygu lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth o rolau a chyfrifoldebau sefydliadau sy'n gyfrifol am fonitro a chyflawni hyn.*

Ers cynnal yr ymchwil, mae sawl cwmni wedi gwneud ymrwymadau cyhoeddus i sicrhau gostyngiadau yn y defnydd o orlif stormydd, cynyddu monitro a gwella tryloywder dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae'n hanfodol bod cwmnïau'n cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol o ran trin carthion ac yn cadw at yr ymrwymadau y maent wedi'u gwneud i'w cwsmeriaid. Dylent ymgysylltu â'u cwsmeriaid ar y cynnydd a wnânt a'r heriau y maent yn eu hwynebu, er mwyn sicrhau bod tryloywder ac atebolrwydd llawn.

Roeddem yn falch o weld ymrwymadau gan rai cwmnïau i ymgysylltu'n fwy tryloyw a rhagweithiol ar eu perfformiad gyda'u cwsmeriaid a rhanddeiliaid allweddol. Byddwn yn monitro gweithredoedd cwmnïau yn hyn o beth.

## Mae'r prif ganfyddiadau'n cynnwys:

- Nododd tri o bob deg o ymatebwyr (29%) fod llygredd dŵr afonydd a moroedd ymhlith y tri pheth mwyaf sy'n cael effaith negyddol ar yr amgylchedd.
- Mae gwahaniaeth rhwng yr hyn y mae pobl yn meddwl sy'n ddiogel i'w wneud mewn afon a'r hyn y maent yn meddwl y dylai fod yn ddiogel i'w wneud:
  - mae chwech o bob deg o ymatebwyr (60%) yn Lloegr yn meddwl y dylai fod yn ddiogel mynd i nofio mewn afon yn Lloegr – ond dim ond 16% sy'n meddwl bod hynny'n wir hyn o bryd;
  - Mae 65% o ymatebwyr yng Nghymru yn meddwl y dylai fod yn ddiogel nofio mewn afon yng Nghymru, gyda 24% yn credu ei bod yn ddiogel i wneud hynny ar hyn o bryd.
- Mae tri chwarter yr ymatebwyr (75%) yn ymwybodol bod carthion weithiau'n cael eu rhyddhau i afonydd a moroedd – ond ychydig iawn sy'n nodi dealltwriaeth dda o orlif stormydd.
- Mae llawer o ymatebwyr yn sôn am bryder ynglŷn â rhyddhau carthion i afonydd a moroedd, a'r emosiynau mwyaf cyffredin yn ymwneud â hyn yw dicter a gofid.

**Dr Claire Forbes, Uwch Gyfarwyddwr  
Cyfathrebu Corfforaethol, Ofwat**

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar farn pobl ynglŷn ag ansawdd dŵr afonydd a'u dealltwriaeth o bwy sy'n gyfrifol am gadw afonydd yn lân.

Daw'r canfyddiadau o arolwg ar-lein gan Savanta a gynhaliwyd rhwng 23 Mawrth - 1 Ebrill. Mae hyn yn cynnwys:

- Arolwg o 2,329 o bobl yng Nghymru a Lloegr. Mae'r sampl yn cynnwys 1,898 o ymatebwyr yn Lloegr a 431 yng Nghymru. Pwysolwyd y data yn ôl rhyw, oedran a rhanbarth i fod yn gynrychioliadol yn genedlaethol.
- Sampl atgyfnerthu o 302 o ymatebwyr lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru a Lloegr.

Drwy gydol yr adroddiad hwn, defnyddir sampl data Cymru a Lloegr i adrodd ar ganfyddiadau. Fodd bynnag, mae data sy'n edrych ar wahaniaethau yn ôl ethnigrwydd yn cynnwys y sampl atgyfnerthu lleiafrifoedd ethnig a'r ymatebwyr o leiafrifoedd ethnig o'r prif arolwg, gan wneud cyfanswm o 493 o ymatebwyr.

Gall tueddiadau a welir yn y sampl atgyfnerthu lleiafrifoedd ethnig gael eu hysgogi gan oed, gan fod gan y sampl gyfran uwch o bobl iau.

### Mae'r adroddiad yn nodi data ar y canlynol:

- Pobl, yr amgylchedd a dŵr.
- Ansawdd dŵr afonydd - cost, defnydd, ymwybyddiaeth.
- Gorlif stormydd - ymwybyddiaeth a barn.
- Sefydliadau - dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau.

Gellir lawrlwytho tablau data llawn o [wefan Ofwat](#). Mae hyn yn cynnwys y tablau data cyfunol ar gyfer Cymru a Lloegr (y data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn), tablau data ar gyfer cyfranogwyr yng Nghymru a thablau data ar gyfer ymatebwyr o leiafrifoedd ethnig.



## Pobl, yr amgylchedd a dŵr


Gofynnwyd i'r ymatebwyr restru, o restr o opsiynau, yr hyn y maent yn ei feddwl sy'n cael yr effaith fwyaf negyddol ar yr amgylchedd. Dewiswyd llygredd dŵr afonydd a moroedd (e.e. carthffosiaeth, microblastigau, gwastraff fferm) gan 8% fel yr elfen sy'n cael yr effaith fwyaf negyddol. Roedd hyn yn is na'r rhai a ddewisodd wastraff cyffredinol/sbwriel/tipio anghyfreithlon (29%), llygredd aer (14%), a phlastigau untro (14%).

Nododd bron i dri o bob deg (29%) fod llygredd dŵr yn un o'r pethau pwysicaf sy'n cael effaith negyddol ar yr amgylchedd (gan roi safle 1-3 iddo). Roedd rhai gwahaniaethau cenedlaethol/rhanbarthol. Roedd ymatebwyr yn Ne Orllewin Lloegr (36%), Cymru (36%) a De Ddwyrain Lloegr (34%) yn fwy tebygol o ystyried bod llygredd dŵr yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd.


Yn yr un modd, gofynnwyd i ymatebwyr rannu, o restr o opsiynau, yr hyn a oedd yn eu poeni neu'n eu pryderu fwyaf am eu hardal leol. Llygredd dŵr oedd y prif bryder i 11% o'r cyfranogwyr. Mae hyn yn cymharu â 27% ar gyfer gwastraff cyffredinol/sbwriel/tipio anghyfreithlon, 14% ar gyfer llygredd aer ac 11% ar gyfer plastigau untro.

Dewisodd traean o'r ymatebwyr (33%) llygredd dŵr fel un o'u prif bryderon (gan roi safle 1-3 iddo). Roedd niferoedd uwch o ymatebwyr yn Ne Orllewin Lloegr (43%) a De Ddwyrain Lloegr (39%) yn ystyried llygredd dŵr fel y prif bryder (gan roi safle 1-3 iddo).

### Yr hyn y mae pobl yn ei ystyried sy'n cael yr effaith fwyaf negyddol ar yr amgylchedd, gan feddwl am eu hardal leol (gan roi safle 1-3)



### Yr hyn y mae pobl yn fwyaf pryderus neu'n poeni fwyaf yn ei gylch, gan feddwl am eu hardal leol (gan roi safle 1-3)



\* Er enghraifft carthion, microblastigau, gwastraff fferm \*\* Er enghraifft tanwydd ffosil

## Ansawdd dŵr afonydd – cost


Rhoddyd dewis i'r ymatebwyr rhwng gwella ansawdd afonydd neu gadw biliau'n isel. Roedd bron i chwech o bob deg (59%) eisïau i'w cwmni dŵr flaenoriaethu gwella ansawdd a glendid afonydd yng Nghymru a Lloegr, hyd yn oed pe bai hyn yn cynyddu pris eu biliau dŵr. Roedd ychydig o dan dri o bob deg (29%) eisïau i gwmnïau gadw biliau dŵr yn isel, hyd yn oed pe bai hynny'n cael effaith negyddol ar ansawdd a glendid afonydd yng Nghymru a Lloegr.

Roedd ymatebwyr a oedd ar ei hôl hi o ran talu unrhyw filiau yn sylweddol fwy tebygol o ddewis cadw biliau dŵr yn isel (40%) na'r rheini nad oeddent ar ei hôl hi gyda'u biliau (24%). Mae'n debygol y bydd cyfran y bobl sydd ar ei hôl hi gyda biliau'r cartref yn uwch nawr nag ar yr adeg y cynhaliwyd yr ymchwil hwn, ym mis Mawrth 2022 – oherwydd y cynnydd dilynol mewn costau byw. Hefyd, mae ein [ymchwil costau byw](#), a gynhaliwyd hefyd ym mis Mawrth 2022, yn dangos bod 53% o dalwyr biliau dŵr wedi rhagweld y byddent yn cael trafferth talu bil cyfleustodau dros y flwyddyn i ddod.

Roedd rhai gwahaniaethau arwyddocaol pellach rhwng ymatebwyr:

- Roedd pobl iau yn fwy tebygol na phobl hŷn o fod eisïau i gwmnïau gadw biliau dŵr yn isel – 40% o bobl 18-34 oed, o gymharu â 18% o'r rhai 55 oed neu hŷn.
- Roedd pobl â phlant ifanc yn y cartref yn fwy tebygol na'r rheini nad oes ganddynt blant yn y cartref o fod eisïau i gwmnïau gadw biliau dŵr yn isel (39% o'r rheini â phlant 0-11 oed, o gymharu â 23% o'r rheini nad oes ganddynt blant yn y cartref).
- Roedd ymatebwyr o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o flaenoriaethu cadw biliau dŵr yn isel – 37%, gan godi i 39% o ymatebwyr Du. Mae hyn yn cymharu â 28% o ymatebwyr Gwyn.

### Roedd pobl iau yn fwy tebygol na phobl hŷn i fod am i gwmnïau gadw biliau dŵr yn isel



Fodd bynnag, roedd hefyd rhywfaint o gysondeb rhwng grwpiau. Roedd 59% o'r grŵp economaidd-gymdeithasol ABC1 eisïau i gwmnïau wella ansawdd a glendid afonydd, hyd yn oed os oedd hynny'n golygu cynnydd ym mhris eu bil dŵr. Mae hyn yn cymharu â 58% o grŵp economaidd-gymdeithasol C2DE.

Cyflwynwyd y cwestiwn hwn i ymatebwyr fel cwestiwn naill ai / neu. Mewn gwirionedd, mae'n bosibl i ansawdd a glendid afonydd wella heb gynydd mewn biliau dŵr: mae cwmnïau dŵr eisïoes wedi cael cyllid ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn y maes hwn. Gellid gwella ansawdd a glendid afonydd hefyd pe bai eraill, megis y rhai mewn amaethyddiaeth, yn cymryd camau i leihau llygredd.

Dylid nodi hefyd nad oedd y cwestiwn yn rhoi unrhyw syniad i ba raddau y gallai biliau godi. Felly, dylid trin ymatebion yn ofalus.

# Ansawdd dŵr afonydd - defnydd

Mae gwahaniaeth rhwng yr hyn y mae pobl yn meddwl y gallent ei wneud ar hyn o bryd yn ddiogel mewn afon yng Nghymru neu Lloegr a'r hyn y dylent allu ei wneud.

Roedd chwech o bob deg o ymatebwyr (60%) yn Lloegr yn meddwl y dylai fod yn ddiogel i fynd i nofio mewn afon. Ond dim ond 16% oedd yn meddwl ei bod yn ddiogel gwneud hyn ar hyn o bryd. Yn yr un modd, roedd mwy na hanner (52%) yr ymatebwyr yn meddwl y dylai fod yn ddiogel i blant chwarae mewn afon, dim ond 12% oedd yn meddwl bod hyn yn wir ar hyn o bryd. Roedd safbwyntiau ar yr hyn y dylai fod yn ddiogel i'w wneud mewn afon yn Lloegr yn gyson rhwng y rhai sy'n byw ger afon neu gorff arall o ddŵr a'r rhai nad ydynt.

Fodd bynnag, roedd rhai gwahaniaethau rhwng y rheini a ddywedodd eu bod yn fodlon talu mwy i wella ansawdd a glendid afonydd a'r rheini oedd yn well ganddynt gadw biliau dŵr yn isel. Er enghraifft, roedd y grŵp cyntaf yn fwy

tebygol o ddatgan y dylai afonydd fod yn ddiogel i nofio ynddynt (67%) a gadael i blant chwarae ynddynt (60%). Mae hyn yn cymharu â 46% a 41% yn y drefn honno ar gyfer y rhai a roddodd flaenoriaeth i gadw biliau'n isel.


Ar gyfer ymatebwyr yng Nghymru, roedd gwahaniaethau arwyddocaol hefyd rhwng yr hyn yr oedd pobl yn credu ei fod yn ddiogel i'w wneud ar hyn o bryd mewn afon yng Nghymru a'r hyn y dylai fod yn ddiogel i'w wneud. Teimlai bron i ddwy ran o dair y dylai fod yn ddiogel i bobl fynd i nofio mewn afonydd (65%) ac i blant chwarae ynddynt (63%) - ond dim ond 24% ac 20% yn y drefn honno oedd yn credu ei bod yn ddiogel i wneud hynny ar hyn o bryd.

Roedd gwahaniaethau hefyd ymhlith ymatebwyr yng Nghymru rhwng y rhai a ddywedodd eu bod yn fodlon talu mwy i wella ansawdd a glendid afonydd a'r rhai yr oedd yn well ganddynt gadw biliau dŵr yn isel. Roedd y grŵp cyntaf yn fwy tebygol o ddatgan y dylai afonydd fod yn ddiogel i nofio ynddynt (72%), o gymharu â 58% ar gyfer y rhai a roddodd flaenoriaeth i gadw biliau'n isel.

## Fe wnaethom ofyn i bobl beth maent yn ei feddlw...

...y gallent ei wneud yn ddiogel mewn afon ar hyn o bryd?

...y dylent fod yn gallu gwneud yn ddiogel mewn afon?




## Ansawdd dŵr afonydd – ymwybyddiaeth

Gofynnwyd i'r ymatebwyr restru, o amrywiaeth o opsiynau, beth sy'n cael yr effaith fwyaf negyddol ar ansawdd dŵr afonydd yng Nghymru a Lloegr. Roedd mwy na chwarter (27%) yn rhoi 'carthion heb eu trin gan gwmnïau dŵr' ar frig y rhestr o bethau sy'n effeithio'n negyddol ar ansawdd dŵr afonydd. Rhoddodd 57% hwn yn eu tri safle uchaf.

Roedd rhai gwahaniaethau yn ôl oedran, gyda 47% o bobl 18-34 oed yn gosod hyn ymhlith y tri uchaf, o gymharu â 63% o'r rhai 55+ oed. Roedd rhai gwahaniaethau rhanbarthol hefyd, gydag ymatebwyr yn y Ne Orllewin Lloegr (62%) a De Ddwyrain Lloegr (62%) yn fwyaf tebygol o roi carthion heb eu trin gan gwmnïau dŵr yn eu tri uchaf. Mae'r [Atodiad](#) yn nodi manylion achosion allweddol llygredd mewn afonydd.

### Yr effaith fwyaf negyddol ar ansawdd dŵr afonydd yng Nghymru a Lloegr (gan roi safle 1-3)



\* Er enghraifft cadachau gwlyb, cynhyrchion misglwyf, cewynnau, olew a saim.

\*\* Mae dŵr glaw sy'n golchi oddi ar ffyrdd yn cynnwys y llygryddion a geir ar y ffyrdd, er enghraifft mygdarth ceir, gronynnau rwber o deiars, ac ati.

## Gorlif stormydd – ymwybyddiaeth

Dyweddodd tri chwarter yr ymatebwyr (75%) eu bod yn ymwybodol bod cwmnïau dŵr weithiau'n rhyddhau carthion i afonydd a moroedd. Nid oedd chwarter (25%) yr ymatebwyr yn ymwybodol o hyn. Roedd ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn ymwybodol o hyn (83% o'r rhai 55+ oed, 72% o'r rhai 35-54 oed, a 64% o rai 18-34 oed).

Roedd yr ymatebwyr hynny a gredai y dylai cwmnïau dŵr flaenoriaethu cadw biliau dŵr yn isel yn llai tebygol o fod yn ymwybodol bod carthion yn cael eu rhyddhau i afonydd a moroedd (70%, o gymharu â 79% o'r rhai a roddodd flaenoriaeth i wella ansawdd a glendid afonydd).


Dyweddodd mwy na chwech o bob deg o ymatebwyr (62%) eu bod wedi clywed am orlif stormydd (a elwir weithiau yn 'orlif carthffosydd cyfun'). Dywedodd 38% nad oeddent wedi clywed am orlif stormydd.

Caniateir defnyddio gorlif stormydd mewn rhai amgylchiadau. Mae mwy o wybodaeth ar sut y cânt eu defnyddio yn yr [Atodiad](#).

Dyweddodd llawer o'r rheini a adroddodd eu bod wedi clywed am orlif stormydd nad oeddent yn gwybod llawer amdanynt

Sail: Pob ymatebydd (2,329). Ymatebwyr a oedd wedi clywed am orlif stormydd (1,393).

### Gwybodaeth am orlif stormydd ymhlith y rheini oedd wedi clywed am y term



### Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr a oedd wedi clywed am orlif stormydd am eu barn ar gyfres o ddatganiadau...

**Roedd 58%** yn credu os bydd system garthffosiaeth yn cael ei llethu, bod perygl y bydd dŵr/carthffosiaeth yn mynd i mewn i gartrefi pobl

**Roedd 64%** yn credu y gall rhai ymddygiadau gael effaith ar y system garthffosiaeth megis fflsio cadachau gwlyb i lawr y toiled

**Roedd 29%** yn credu bod cwmnïau dŵr yn defnyddio gorlif stormydd i ryddhau carthion i afonydd neu foroedd dim ond pan fydd hi wedi bod yn bwrw glaw

**Roedd 31%** yn credu bod cwmnïau dŵr weithiau'n defnyddio gorlif stormydd i ryddhau carthion i afonydd a moroedd pan nad yw wedi bod yn bwrw glaw




## Barn am orlif stormydd

Mae gorlif stormydd yn gweithredu fel falfiau diogelwch ar gyfer y system garthffosiaeth. Mae hyn yn golygu bod cwmnïau dŵr weithiau'n defnyddio gorlif stormydd i ryddhau carthion a dŵr glaw ychwanegol i afonydd neu foroedd. Rhoddwyd y wybodaeth hon i'r ymatebwyr a gofynnwyd pa mor bryderus oeddent, os o gwbl, ynglŷn â'r defnydd o orlif stormydd mewn tri senario gwahanol.

Nododd mwyafrif clir o ymatebwyr bryder am bob un o'r senarios. Cynyddodd canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn 'bryderus iawn' am y senarios o 34% ar gyfer senario un i 55% ar gyfer senario tri.


### Senario un

Gorlif stormydd yn cael eu defnyddio i ryddhau carthion i afonydd a moroedd fel dewis olaf oherwydd glaw anarferol o drwm




### Senario dau

Gorlif stormydd yn cael eu defnyddio i ryddhau carthion i afonydd a moroedd yn weddol reolaidd pan fydd hi'n bwrw glaw



### Senario tri

Gorlif stormydd yn cael eu defnyddio i ryddhau carthion i afonydd a moroedd yn rheolaidd, gan gynnwys pan **nad yw** wedi bwrw glaw



■ Pryderus iawn
 ■ Gweddol bryderus
 ■ Ddim yn bryderus nac yn ddibryder
 ■ Ddim yn bryderus iawn
 ■ Ddim yn bryderus o gwbl
 ■ Ddim yn gwybod

Mae lefel y pryder yn cyfateb i oedran. Dywedodd 82% o'r rhai 55+ oed eu bod yn bryderus iawn neu'n weddol bryderus, o gymharu â 67% o'r rhai 18-34 oed a 76% o'r rhai 35-54 oed.

Roedd y rhai 55+ oed dros ddwywaith yn fwy tebygol na phobl 18-34 oed o ddweud eu bod yn 'bryderus iawn' - 57% a 27% yn y drefn honno. Dywedodd 48% o ymatebwyr yn y grŵp economaidd-gymdeithasol C2DE eu bod yn 'bryderus iawn' o gymharu â 39% o'r rhai ABC1.

Dywedodd 70% o'r rhai 55+ oed eu bod yn 'bryderus iawn', o gymharu â 38% o bobl 18-34 oed. Yn rhanbarthol, roedd lefelau pryder ar eu huchaf yn Ne Ddwyrain Lloegr (91%), De Orllewin Lloegr (89%) a Gorllewin Canolbarth Lloegr (89%).


## Ymatebion i orlif stormydd

Gofynnwyd i ymatebwyr beth oedd yn disgrifio orau eu teimladau tuag at ryddhau carthion i afonydd neu foroedd. Dywedodd mwy na hanner (52%) eu bod yn teimlo'n 'ddig' am hyn, gyda mwy na phedwar o bob deg (41%) yn dweud eu bod yn teimlo'n 'drist'. Dim ond llond dwrn o ymatebwyr a ddywedodd eu bod 'ddim yn poeni' (3%) neu 'ddim â diddordeb' (2%).

Roedd grwpiau oedran hŷn yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn teimlo'n 'ddig' ynglŷn â rhyddhau carthion i afonydd neu foroedd. Dywedodd 62% o'r rhai 55+ oed eu bod yn teimlo'n ddig, o gymharu â 38% o'r rhai 18-34 oed.

Dywedodd chwech o bob deg o ymatebwyr (60%) yn Ne Ddwyrain Lloegr eu bod yn teimlo'n ddig am hyn, o gymharu, er enghraifft, â 45% o ymatebwyr yn Llundain.

Ychydig iawn o bobl ar draws yr holl ddemograffeg gymdeithasol a gwledydd/rhanbarthau a ddywedodd eu bod 'ddim yn poeni' neu â 'dim diddordeb' ynglŷn â rhyddhau carthion i afonydd neu foroedd.



## Sefydliadau

Nododd tri o bob deg (31%) o ymatebwyr mai cwmnïau dŵr oedd â'r cyfrifoldeb mwyaf am gadw afonydd Cymru a Lloegr yn lân. Mae hyn yn cymharu â 23% ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd ac 16% ar gyfer y Llywodraeth. Gosododd dwy ran o dair o ymatebwyr gwmnïau dŵr yn y tri uchaf, o gymharu â 59% ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd a 41% ar gyfer y Llywodraeth.


Nododd dau y cant o'r ymatebwyr mai Ofwat oedd â'r cyfrifoldeb mwyaf am gadw afonydd yn lân, gydag 8% yn dewis Ofwat yn y tri uchaf.

Nid wnaeth pob ymatebydd raddio pob opsiwn. Rhoddodd 73% safle ar gyfer cwmnïau dŵr, 68% ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd, a 54% ar gyfer y Llywodraeth. Dim ond 27% a roddodd safle i Ofwat.

Roedd ymatebwyr o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o raddio'r Llywodraeth fel y sefydliad sydd â'r cyfrifoldeb mwyaf am gadw afonydd yn lân – 27%, o gymharu â 15% o ymatebwyr Gwyn.

Dywedodd llai nag un rhan o bump (18%) o ymatebwyr lleiafrifoedd ethnig mai cwmnïau dŵr oedd â'r cyfrifoldeb mwyaf am hyn, o gymharu â 32% o ymatebwyr Gwyn.

### Canfyddiad o bwy sydd â'r cyfrifoldeb mwyaf am gadw afonydd Cymru a Lloegr yn lân, mewn geiriau eraill atal llygryddion rhag mynd i mewn i ddyfrffyrdd (gan roi safle 1-3)



# Sefydliadau

Amrywiol oedd yr ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau sefydliadau mewn perthynas ag afonydd a moroedd.

**Canfyddiad o ba gyfrifoldebau, os o gwbl, sydd gan y sefydliadau canlynol o ran rheoleiddio afonydd a moroedd yn y DU**

	Ofwat	Asiantaeth yr Amgylchedd	Cyfoeth Naturiol Cymru*	Arolygiaeth Dŵr Yfed	Defra
Rheoleiddio'r defnydd o orlif stormydd	15%	34%	51%	9%	21%
Monitro ansawdd dŵr yfed	21%	34%	30%	58%	29%
Monitro ansawdd dŵr afonydd	20%	53%	27%	24%	34%
Lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd	10%	37%	42%	7%	20%
Lleihau effeithiau llygredd	12%	49%	30%	12%	31%
Rheoleiddio cwmnïau dŵr	43%	33%	31%	24%	22%
Dim un o'r uchod	2%	1%	1%	1%	5%
Ddim yn gwybod	17%	7%	13%	7%	16%
Heb glywed am y sefydliad hwn	17%	1%	4%	14%	9%

Roedd ymwybyddiaeth o Ofwat yn rheoleiddio cwmnïau dŵr yn sylweddol wahanol yn ôl oedran. Dim ond un rhan o bump (21%) o bobl 18-34 oed oedd yn ymwybodol o rôl Ofwat, o'i gymharu â 37% o'r rhai 35-54 oed a 59% o'r rhai 55+ oed. Roedd ymwybyddiaeth uwch hefyd o rôl Ofwat yn Ne Orllewin Lloegr (51%) a De Ddwyrain Lloegr (50%) na Gogledd Orllewin Lloegr (34%) a Llundain (37%).

Sail: Pob ymatebydd (2,329). \*Ymatebwyr yng Nghymru (431)

## Y cyfeiriadau mwyaf cyffredin ar gyfer pob sefydliad oedd:



### Ofwat

Dywedodd 43% fod Ofwat yn rheoleiddio cwmnïau dŵr.



### Asiantaeth yr Amgylchedd

Nododd 53% rôl mewn monitro ansawdd dŵr afonydd.



### Cyfoeth Naturiol Cymru

Credai 51% o ymatebwyr yng Nghymru ei fod yn rheoleiddio'r defnydd o orlif stormydd.



### Arolygiaeth Dŵr Yfed

Dywedodd 58% mai ei rôl oedd monitro ansawdd dŵr yfed.



### Defra (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig)

Nododd 34% rôl mewn monitro ansawdd dŵr afonydd.

## Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn pobl ynglŷn ag ansawdd dŵr afonydd a rhyddhau carthion i afonydd a moroedd.

Mae camau'n cael eu cymryd ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a chwmnïau dŵr gwastraff i sicrhau newid.

Mae Ofwat wedi bod yn ymgysylltu â chwmnïau dŵr gwastraff yn y cyfnod yn arwain at eu hymgyngoriadau cyhoeddus ar gynlluniau draenio a rheoli dŵr gwastraff drafft, a fydd yn rhedeg tan fis Medi 2022. Mae rhai cwmnïau wedi [ymrwymo](#) i gyflawni cyfartaledd o 20 o orlif stormydd y flwyddyn erbyn 2025 - sy'n golygu, i'r cwmnïau hynny, lleihad gan 39% mewn gollyngiadau o gymharu â chyfartaledd y sector yn 2020 - ac i sicrhau nad yw gweithrediadau cwmnïau'n gyfrifol am gyrff dŵr ddim yn cyflawni Statws Ecolegol Da erbyn 2030.

Mae'r ymrwymïadau hyn yn arwydd clir o'r hyn y gall y sector ei gyflawni yn y tymor byr i fynd i'r afael â'r niwed a achosir gan orlif stormydd. Mae gorlif stormydd sy'n gorlifo'n rheolaidd oherwydd problemau gweithredol heb eu datrys, gan gynnwys cyfluniad asedau, methiannau pwmp a methiannau pŵer, o fewn gallu cwmnïau i'w datrys nawr a disgwyliwn i bob cwmni fynd i'r afael â'r materion hyn fel blaenoriaeth yn unol â'u dyletswyddau cyfreithiol i ymdrin yn effeithiol â chynnwys carthffosydd.

### Rydym yn gwthio cwmnïau dŵr gwastraff i wella ansawdd dŵr afonydd drwy:

- Ymchwilio i sut mae cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff yn rheoli eu gweithfeydd trin carthion. Yn ddiweddar rydym wedi agor achosion gorfodi yn erbyn chwe chwmni ac mae gennym ymchwiliad ar waith i bob cwmni dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr.
- Gwneud lwfansau cost ar gyfer buddsoddi mewn gwelliannau amgylcheddol, gan gynnwys £4.8 biliwn o fuddsoddiad ar gyfer gwelliannau dŵr gwastraff ledled Cymru a Lloegr rhwng 2020–25.
- Monitro perfformiad amgylcheddol cwmnïau dŵr, gan gynnwys perfformiad cwmnïau yn erbyn ymrwymïadau a wnaed fel rhan o'n proses adolygu prisiau diweddaraf (PR19) sy'n cymell gwell perfformiad amgylcheddol.
- Gwthio cwmnïau i gyflawni mwy dros yr amgylchedd drwy ein [proses adolygu prisiau nesaf](#) ar gyfer y cyfnod 2025–2030 a thu hwnt. Mae hyn yn cynnwys cynigion i osod ystod o ymrwymïadau perfformiad ar faterion amgylcheddol gan gynnwys ansawdd dŵr afonydd a gorlif stormydd. Byddai'r ymrwymïadau arfaethedig hyn hefyd yn cynnwys taliadau allberfformiad a thanberfformiad i gymell cwmnïau i gyflawni'r ymrwymïadau hynny a mynd ymhellach lle byddai hynny'n fuddiol.

### Rydym hefyd yn gweithio gydag eraill i wella iechyd afonydd a chasglu data i fonitro hyn, gan gynnwys:

- Gan weithio ochr yn ochr â chwmnïau, y corff diwydiant (Water UK), ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar baratoi'r rownd gyntaf o gynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff.
- Gweithio ochr yn ochr â Defra, Asiantaeth yr Amgylchedd a chwmnïau dŵr gwastraff yn Lloegr fel rhan o'r Tasglu Gorlif Stormydd i weithio tuag at y nod cyffredin o ddileu niwed o orlif stormydd.
- Gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a chwmnïau yng Nghymru fel rhan o'r Tasglu Ansawdd Afonydd Gwell i wella ansawdd dŵr afonydd yng Nghymru.
- Ymgysylltu â grwpiau amgylcheddol i rannu gwybodaeth a chydweithio ar atebion ar sut i wella iechyd afonydd.

Disgwylir hefyd y bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei chynllun lleihau gorlif stormydd yn nhymer yr hydref 2022.

# Atodiad

## Ansawdd dŵr afonydd

Mae [Asiantaeth yr Amgylchedd yn adrodd](#) mai prif ffynonellau llygredd mewn afonydd yw:

- amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig (40%);
- y diwydiant dŵr (35%); a
- threfol a thrafnidiaeth (18%).

## Gorlif stormydd

Mae gorlif stormydd wedi'u cynllunio i weithredu fel falfiau diogelwch pan fo'r system garthffosiaeth mewn perygl o gael ei llethu, er enghraifft yn ystod cawodydd trwm pan fydd llawer o ddŵr glaw yn llifo i mewn i ddraeniau a'r system garthffosiaeth mewn cyfnod byr o amser.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddio gweithrediad gorlif stormydd, gan gynnwys ansawdd gollyngiadau, drwy eu cyfundrefnau trwyddedu amgylcheddol. Maent hefyd yn llywio lefel y gwelliant a'r capasiti ym mhob adolygiad prisiau drwy Raglen Amgylcheddol Genedlaethol y Diwydiant Dŵr (WINEP) yn Lloegr a'r Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol (NEP) yng Nghymru.

Fel rhan o PR19, gofynnodd Ofwat i bob cwmni leihau achosion o lygredd yn ogystal â chaniatáu cyllid ychwanegol o tua £1 biliwn y flwyddyn i wella afonydd a dyfroedd arfordirol gan gynnwys lleihau gollyngiadau o orlif stormydd.

Roedd penderfyniadau terfynol PR19 yn cynnwys tua £4.8 biliwn o wariant ar WINEP a NEP yn Lloegr a Chymru, gyda thua £1.2 biliwn ohono wedi'i dargedu'n uniongyrchol at orlif stormydd. Gosodom her effeithlonrwydd ar gyfer WINEP a'r NEP yn unig, ni wnaethom herio cwmnïau o ran angen. Rydym yn [cynnig](#) ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni leihau gorlif stormydd yn PR24.

Mae gan Ofwat rôl allweddol yn Nhasglu Gorlif Stormydd Defra, sydd â'r nod hirdymor o ddileu niwed o orlif stormydd. Mae'r gwaith hwnnw wedi arwain at ymrwymïadau y bydd cwmnïau dŵr yn:

- sicrhau bod data amser real ar ollyngiadau carthion ar gael mewn safleoedd ymdrochi drwy gydol y flwyddyn;
- cyflymu gwaith i osod monitorau hyd digwyddiadau er mwyn creu darlun cyflawn o'u gweithgaredd erbyn 2023; a
- chyhoeddi data monitro blynyddol ar eu gwefannau ynglŷn â'u defnydd o orlif stormydd, fel y gellir olrhain cynnydd o ran lleihau eu defnydd. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn coladu ac yn cyhoeddi adroddiad ar hyn.

Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo i archwilio gwahanol opsiynau polisi a chostau i fynd i'r afael â'r niwed a achosir gan orlif stormydd.

Ar ddiwedd 2021 cyflwynwyd darn newydd o ddeddfwriaeth, o'r enw Deddf yr Amgylchedd, sy'n rhoi mwy o ddyletswyddau a chyfrifoldebau ar gwmnïau, rheoleiddwyr a'r llywodraeth i fynd ymhellach o ran lleihau'r niwed o orlif stormydd. Bydd y Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau yn Lloegr adrodd yn gyhoeddus am fwy o wybodaeth am eu gollyngiadau o orlif stormydd mewn ffordd sy'n hawdd i'r cyhoedd ei deall.

Er mwyn i gwmnïau ennill ymddiriedaeth a bodloni disgwyliadau eu cwsmeriaid ynglŷn â gorlif stormydd, bydd angen buddsoddiad, ymrwymiad i arloesi, a dull tryloyw.

## Ymchwiliad i weithrediad gweithfeydd trin dŵr gwastraff

Fe wnaeth offer monitro newydd mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn Lloegr ysgogi sawl cwmni dŵr i ddweud y gallent fod yn rhyddhau carthion o'u gwaith trin dŵr gwastraff pan nad oes ganddynt ganiatâd i wneud hynny.

Mae gan weithfeydd trin dŵr gwastraff drwyddedau amgylcheddol sy'n nodi amodau sy'n cynnwys sut y mae'n rhaid i'r cwmni drin dŵr gwastraff cyn y gellir rhyddhau unrhyw ollyngiadau o'r gweithfeydd trin i'r amgylchedd. Rhoddir y trwyddedau hyn gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae Ofwat yn ymchwilio i weld a yw, a pha mor aml y mae, cwmnïau dŵr yn torri amodau eu trwyddedau amgylcheddol yn eu gweithfeydd trin dŵr gwastraff ac a allai hyn ddangos eu bod wedi torri unrhyw rwymedigaeth y mae Ofwat yn gyfrifol am ei gorfodi, megis dyletswydd cwmnïau i ymdrin yn effeithiol â charthffosiaeth. Mae'r ymchwiliad hwn yn flaenoriaeth i Ofwat ac rydym yn gweithio mor gyflym ag y gallwn i'w ddatblygu. Rydym wedi nodi cyfres o gwmnïau â blaenoriaeth yr ydym wedi agor achosion gorfodi iddynt ac rydym nawr yn casglu ac yn asesu gwybodaeth bellach ganddynt er mwyn deall ein pryderon yn well. Byddwn yn parhau i adolygu ein hachosion gorfodi, a gall y cwmnïau y byddwn yn canolbwyntio arnynt newid wrth i ni gasglu gwybodaeth newydd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ein [ymchwiliad](#) ar ein tudalen we.

**Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran anweinidogol y Llywodraeth. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.**

Ofwat  
Centre City Tower  
7 Hill Street  
Birmingham B5 4UA  
Ffôn: 0121 644 7500

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3).

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn [www.ofwat.gov.uk](http://www.ofwat.gov.uk).

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn i mailbox [mailbox@ofwat.gov.uk](mailto:mailbox@ofwat.gov.uk).

**OGL**